# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**DYDD IAU 19eg O FAI 2016**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd: T.J. Jones (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S.E. Watts, y Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Lleoliad:** Ystafell 67, Neuadd y Sir, Caerfyrddin (9:30 – 10:00yb)

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

## 2. CYNLLUN CYFLAWNI GWASANAETH - IECHYD YR AMGYLCHEDD A THRWYDDEDU

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y Cynllun Cyflawni Gwasanaeth ar gyfer Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu a oedd yn amlinellu sylfaen gwaith adain Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd am 2016/17.

Yr oedd y Cynllun yn amlinellu nodau ac amcanion gwasanaeth y Cyngor gan gynnwys dolenni cyswllt i'r amcanion a'r cynlluniau corfforaethol. Yr oedd disgrifiad cryno o'r Cyngor yn cael ei gynnwys gan roi diffiniad o'r seilwaith, a'r strwythur economaidd a threfniadaethol. Hefyd yr oedd y Cynllun yn manylu ar gwmpas a gofynion Adain Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd.

Yr oedd y Cynllun wedi'i rannu'n adrannau a roddai fanylion meysydd penodol pob gwasanaeth a'r cynlluniau gwaith am y flwyddyn i ddod. Yr oedd hyn yn gyfle i danlinellu gwendidau a chryfderau'r timau perthnasol. Amlygwyd meysydd penodol a oedd mewn perygl ynghyd â'r rhai na allai'r Adain eu darparu bellach oherwydd yr adnoddau prin. Cafwyd manylion yr adnoddau, a oedd yn cynnwys costau staffio, gweinyddu, cyflenwadau a gwasanaethau, hyfforddiant ac ati gan gymharu blynyddoedd ariannol. Yr oedd yr adran olaf yn cynnwys gwybodaeth a manylion am asesiadau ansawdd ac yn dangos yr amrywiol ffyrdd yr oedd yr Adain yn sicrhau bod cysondeb, effeithlonrwydd a chymhwysedd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu am 2016-17.**

**3. COFNOD PENDERFYNIADAU – 4$^{YDD}$ O CHWEFROR 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau cyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd oedd wedi ei gynnal ar 4ydd Chwefror 2016 gan ei fod yn gywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**